




**Comisiwn
Bevan
Commission**

Uwchgynhadledd y Gwanwyn Syr Mansel Aylward

Y Trobwynt: Uno dros Ddyfodol Iechyd a Gofal
yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol yr Adroddiad Rhagarweiniol

Mae Cymru ar drobwynt.

Gyda galw cynyddol, anghydraddoldebau sy'n dyfnhau a systemau iechyd a gofal wedi'u cynllunio ar gyfer heriau ddoe, nid yw atebion bach yn ddigon mwyach.

Ym mis Mawrth 2025, daeth Uwchgynhadledd y Gwanwyn Syr Mansel Aylward â dros 120 o arweinwyr ynghyd i ailddychmygu dyfodol tecach, mwy beiddgar a mwy gwydn.

Mae'r adroddiad rhagarweiniol hwn yn nodi dechrau'r daith honno – ymrwymiad ar y cyd i adeiladu system iechyd, gofal a llesiant sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'i seilio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi'i yrru gan yr egni sydd eisoes yn fyw ledled Cymru.

Cyd-destun Cyfredol a Thueddiadau'r Dyfodol

Er mwyn llunio'r dyfodol, rhaid inni ddeall yn gyntaf i ble rydym yn mynd. Gan edrych ymlaen at 2045, mae'r adran hon yn archwilio maint yr her sy'n ein hwynebu, a pham na all gweithredu brys aros.



Mae Cymru'n heneiddio'n gyflym: Bydd y boblogaeth dros 65 oed yn tyfu **7 gwaith yn gyflymach** na'r boblogaeth dan 65 oed. Bydd pobl dros 90 oed **bron yn dyblu**. Disgwylir i salwch difrifol gynyddu **33%**; dementia gan **70%**.^{1,2,3}



Llai o ddwylo, mwy o ofynion: Gallai Cymru wynebu diffyg o **40,000** o weithwyr gofal cymdeithasol ac **20,000** o welyau cartrefi gofal.⁴ Bydd y gymhareb o oedolion o oedran gweithio i bobl dros 65 oed yn gostwng o 3:1 i 2:1. Bydd angen i bobl weithio'n hwyrach mewn bywyd i gynnal gwasanaethau cyhoeddus.⁵



Gweithlu hŷn, mwy sâl: Cymru sydd â'r cyfraddau absenoldeb salwch uchaf o blith gwledydd y DU. Gyda gweithlu sy'n heneiddio, gallai hyn godi **27.5%** arall.^{6,7}



Rheng flaen fregus: Mae **~6%** o staff ein GIG i ffwrdd yn sâl ar unrhyw adeg benodol - **mwya na 2x** y cyfartaledd cenedlaethol. Straen a phryder yw'r prif achosion. Mae bron **50%** o weithwyr gofal cymdeithasol yn dweud y gallen nhw adael yn y 5 mlynedd nesaf.^{8,9}



Yr asgwrn cefn di-dâl: Pe bai gofalmwyr di-dâl yng Nghymru yn rhoi'r gorau iddi yfory, byddai'n costio dros **£10 biliwn y flwyddyn** i'w disodli - mwy na chyllideb gyfan GIG Cymru.¹⁰



Mae anghydraddoldeb yn ein lladd ni: Cymru sydd â'r lefelau tlodi uchaf yng Ngwledydd y DU, gydag **1 o bob 3 o blant wedi'u heffeithio**. Mae pobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn debygol o **farw 10 mlynedd yn iau** gyda **15 mlynedd yn llai** mewn iechyd da. Ac eto mae'r cymunedau hyn yng Nghymru yn derbyn llai o gyllid y pen ar gyfer gofal sylfaenol.^{11,12,13,14,15}



Gwyrdroi'r model: Mae **~50%** o'n cyllideb genedlaethol yn mynd i iechyd a gofal, ond mae **80%** o'r hyn sy'n siapio ein hiechyd yn seiliedig ar le mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.¹⁶ Er mwyn diwallu anghenion yfory, mae angen troi hyn ar ei ben.

‘Wedi’i Iunio gan Bobl, ar gyfer Pobl’

Ein Gweledigaeth Hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal yn y Dyfodol yng Nghymru:

‘Pobl iachach mewn cymunedau ffyniannus’

Dim ond drwy’r canlynol y gellir cyflawni hyn:

- ✓ Atal ar bob lefel
- ✓ Tegwch fel egwyddor arweiniol
- ✓ Partneriaethau â phobl, cymunedau a sefydliadau
- ✓ Integreiddio ar draws iechyd, gofal a llesiant
- ✓ Gwasanaethau a systemau deinamig, darbodus a chynaliadwy
- ✓ Gwasanaethau a gwneud penderfyniadau sy’n seiliedig ar dechnoleg a data ar bob lefel.



Sut Olwg Fydd ar Lwyddiant os Gwireddwn Ein Gweledigaeth?

Mewn degawd, dylai Cymru ymdrechu i:

- **Gwyrddroi anghydraddoldeb:** haneru'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf cyfoethog, gan sicrhau nad yw lle rydych chi'n byw bellach yn pennu pa mor hir neu ba mor dda rydych chi'n byw.
- **Bod yn arweinydd byd-eang mewn gofal di-dor, sy'n canolbwyntio ar y gymuned:** ymhlith gwledydd gorau'r OECD am ddarparu gofal integredig, amserol, sy'n canolbwyntio ar y person y mae pobl yn ei werthfawrogi ac yn ymddiried ynddo.
- **Cael ei chydabod yn fyd-eang am ofal darbodus, sy'n cael ei yrru gan werthoedd:** system sy'n blaenoriaethu pobl dros brosesau, gan sicrhau bod pob punt a phob penderfyniad yn gwella canlyniadau ac ansawdd bywyd.
- **Arwain y DU mewn iechyd digidol a grymuso dinasyddion:** gyda defnydd rhagfynegol amser real a moesegol o ddata a deallusrwydd artiffisial, gan roi mynediad llawn a diogel i bob person i'w cofnodion iechyd a gofal eu hunain.
- **Creu'r genedl fwyaf llythrennog o ran iechyd yn Ewrop:** grymuso pob dinesydd i ddeall, rheoli a llunio eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gyda chefnogaeth y wybodaeth a'r offer cywir.
- **Hyrwyddo llesiant a hyblygrwydd y gweithlu:** gosod y safon Ewropeaidd ar gyfer lleihau gorweithio, anaf moesol, ac absenoldeb oherwydd salwch, gyda diwylliant gweithlu wedi'i adeiladu ar dosturi, cynhwysiant, a gwydnwch.
- **Dod yn 'Labordy Byw' cenedlaethol cyntaf y byd ar gyfer iechyd a gofal:** amgylchedd beiddgar ar gyfer profi, dysgu a chynyddu arloesiadau byd go iawn sy'n gwella bywydau ac yn sbarduno arfer gorau byd-eang.

Sut Ydyn Ni'n Cyrraedd Yno?

Themâu a Champau Gweithredu Allweddol i Gyflawni ein Gweledi-gaeth Gyffredin:

aeth deg Thema Allweddol gyda Champau Gweithredu sy'n cydweddu i'r amlwg fel rhai hanfodol i gyflawni newid cynaliadwy a thrawsnewidiol i ddiwallu anghenion a heriau'r dyfodol. Roedd y rhain yn gyson â [*Sylfeini ar gyfer y Model Iechyd a Gofal y Dyfodol yng Nghymru*](#) Comisiwn Bevan.

Thema 1: Trawsnewid diwylliant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd i gatalyddu newid ar draws y system.

- **Arwain yn wahanol:** Datblygu model newydd o arweinyddiaeth ar draws y system, gan ddiogelu amser a lle i arweinwyr feddwl, dysgu a chydweithio drwy rwydweithiau arweinyddiaeth cenedlaethol.
- **Cydweddu arweinyddiaeth, atebolrwydd a chymhellion:** Sicrhau arweinyddiaeth ariannol, gweithredol, a chlinigol yn gweithio tuag at ac yn atebol am amcanion cyffredin fel atal, tegwch ac integreiddio, gyda chefnogaeth llywodraethu cydgysylltiedig, cynllunio strategol a fframweithiau perfformiad.
- **Lleoli Cymru fel 'Labordy Byw' Cenedlaethol cyntaf Bevan ar gyfer iechyd a gofal:** gan dynnu ar ein hanes, meithrin diwylliant o arloesedd agored a dysgu amser real ar draws pob lefel o'r system. Gwneud Cymru y lle hawsaf i brofi, dysgu a chynyddu'r hyn sy'n gweithio.

Thema 2: Manteisio i'r eithaf ar botensial data, technoleg ac arloesedd i ddylunio a chyflawni trawsnewidiad ar raddfa eang.

- **Creu un cofnod digidol:** Rhoi mynediad i bob person yng Nghymru at gofnod digidol cydgysylltiedig, amser real sy'n cwmpasu gwasanaethau iechyd, gofal a chymunedol.
- **Defnyddio data a deallusrwydd artifisial i alluogi gofal rhagweithiol:** Manteisio ar ddata cysylltiedig a deallusrwydd artifisial moesegol i bersonoli cefnogaeth, rhagamcan neu ragweld angen, a gyrru penderfyniadau tecach a mwy doeth.
- **Datgloi gwerth data Cymru:** Ehangu mynediad at Fanc Data SAIL drwy gefnogaeth genedlaethol ar gyfer ymchwil ac arloesedd sy'n rhoi budd uniongyrchol i bobl yng Nghymru.

Thema 3: Paratoi a galluogi pobl a chymunedau i reoli a llunio eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

- **Grymuso cymunedau i lunio llesiant lleol:** Cefnogi asedau lleol dibynadwy fel llyfrgelloedd, ysgolion, fferyllfeydd a grwpiau cymunedol drwy gyllidebau cyfun a gwneud penderfyniadau datganoledig. Galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gydweddu cyllid ar draws sectorau, gan roi dylanwad gwirioneddol i gymunedau dros flaenoriaethau.
- **Meithrin pwrpas a chyfrifoldeb cyffredin ar gyfer iechyd a gofal:** Creu deialog genedlaethol barhaus, gynhwysol ynghylch sut olwg sydd ar iechyd a gofal da nawr ac yn y dyfodol, gan gryfhau atebolrwydd cilyddol rhwng pobl, Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chyrff cenedlaethol ar gyfer gwella canlyniadau llesiant.
- **Paratoi pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain:** Ehangu mynediad at hyfforddiant ac offer fel rhagnodi cymdeithasol, cefnogaeth hunanreoli, llythrennedd iechyd, a data personol, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd yn y perygl mwyaf o gael eu hallgáu.

Thema 4: Darparu iechyd a llesiant teg, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu.

- **Dylunio ar gyfer tegwch, nid cydraddoldeb:** Cynnwys tegwch mewn cynllunio, cyllido a pholisi, gan ddyrannu adnoddau yn seiliedig ar angen, nid galw hanesyddol.
- **Mynd i'r Afael â'r Gyfraith Gofal Gwrthdro:** Targedu buddsoddiad, mynediad ac atebolrwydd i haneru'r bwlch mewn disgwyliad oes iach.
- **Rhannu pŵer trwy ddylunio:** Creu rolau cynaliadwy, â thâl, i bobl sydd â phrofiad bywyd i helpu i lunio a chefnogi gwasanaethau, yn enwedig o gymunedau sydd wedi'u hymylu.

Thema 5: Buddsoddi mewn atal a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd a llesiant.

- **Ailgynllunio o amgylch yr hyn sy'n cadw pobl yn iach:** Trin penderfynyddion ehangach iechyd fel seilwaith hanfodol, a adlewyrchir mewn blaenoriaethau cenedlaethol, cyllid ac atebolrwydd.
- **Mandadu buddsoddiad mewn atal:** Gosod trothwyon gofynnol clir ar gyfer gwariant atal ar draws sectorau, gyda gwelededd ac olrhain effaith.
- **Gwneud atal yn rhan o fywyd bob dydd:** Ymgorffori cefnogaeth sy'n gymwys yn ddiwylliannol, dan arweiniad y gymuned, yn y lleoedd lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn ymgynnull, gan wneud atal yn hawdd, yn hygyrch ac yn arferol.

Thema 6: Ailgynllunio gwasanaethau a strwythurau o amgylch anghenion pobl a chymunedau i sicrhau integreiddio di-dor ar draws sectorau, systemau a llwybrau gofal.

- **Dylunio gwasanaethau o amgylch pobl, nid sefydliadau:** Cysylltu cynlluniau gofal, timau a chofnodion i greu profiadau di-dor sy'n canolbwyntio ar y person.
- **Creu Pwynt Llesiant Lleol:** Sefydlu rhwydwaith o ganolfannau gofal integredig sy'n cydleoli gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant o fewn mannau cymunedol hygrych.
- **Cryfhau gallu Byrddau Partneriaeth i ddarparu gofal integredig:** Paratoi Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Lleol i oresgyn gwasanaethau tameidiog drwy gael gwared ar rwystrau, galluogi modelau darparu ar y cyd, a defnyddio data a chanlyniadau a rennir i gydlynu gofal o amgylch pobl a lle.

Thema 7: Ailgynllunio strwythurau a lleoliadau gofal yn seiliedig ar egwyddorion bioseicogymdeithasol drwy gydol pob cam o gwrs bywyd.

- **Symud o ofal yn seiliedig ar gyflyrau i gefnogaeth i'r person cyfan:** Symud y tu hwnt i fodelau sy'n seiliedig ar gyflyrau drwy gefnogi anghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol gyda'i gilydd, gan ymgorffori cefnogaeth emosiynol, cysylltiad â chyfoedion, a gweithgarwch ystyrlon fel cydrannau craidd gofal.
- **Gosod gofal o gwmpas newidiadau allweddol mewn bywyd:** Dylunio gwasanaethau o amgylch camau allweddol fel plentyndod, y menopos, heneiddio a phrofedigaeth, gan sicrhau parhad, hyblygrwydd ac urddas.
- **Darparu gofal lle mae pobl yn byw, gyda seilwaith sy'n ei gefnogi:** Ehangumodelau dan arweiniad y gymuned, fel tai gyda gofal a byw â chymorth; a chydweddu ystadau, cynllunio a chomisiynu o amgylch anghenion lleol a blaenoriaethau hirdymor.

Thema 8: Sicrhau gofal darbodus a chynaliadwy drwy ddileu gwastraff, lleihau cymhlethdod a chynyddu effeithlonrwydd, cynhyrchiant a gwerth i'r eithaf.


- **Rhoi'r gorau i ofal gwerth isel a chynyddu'r hyn sy'n gweithio:** Gwneud dadfuddsoddi yn rhan o gynllunio strategol drwy nodi a dileu gwasanaethau aneffeithiol yn raddol, gan gefnogi lledaeniad modelau profedig sy'n canolbwyntio ar bobl.
- **Ymgorffori egwyddorion darbodus ar draws y system:** Cydweddu polisi, cyllid ac ymarfer clinigol â gwerthoedd darbodus, lleihau gwastraff yn systematig, osgoi gor-drin, a chanolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bwysig i bobl.
- **Symleiddio systemau a rolau:** Mynd i'r afael â dyblygu, cymhlethdod a chamgyfateb sgiliau drwy symleiddio llwybrau, ailgynllunio rolau, a chefnogi staff i weithio ar frig eu trwydded, wedi'u galluogi gan offer clyfar a chydlynu gwell.

Thema 9: Diogelu cymhwysedd, capasiti a chyfansoddiad y gweithlu a'u llesiant ar gyfer y dyfodol.

- **Cynllunio a hyfforddi ar gyfer gweithlu'r dyfodol:** Datblygu system wybodaeth am y gweithlu cenedlaethol i ragweld bylchau, tueddiadau a rolau sy'n dod i'r amlwg yn y dyfodol a hyfforddiant hyblyg. Cydweddu addysg, lleoliadau a llwybrau gyrfa ag anghenion y boblogaeth a modelau gofal sy'n esblygu.
- **Ehangu llwybrau hyfforddi a gyrfa hyblyg a chynhwysol:** Tyfu llwybrau/prentisiaethau modiwlaid, hygyrch, ennill wrth ddysgu sy'n cefnogi symud ar draws rolau. Ymgorffori sgiliau digidol, perthynol ac addasol i adeiladu gweithlu hyderus sy'n barod ar gyfer y dyfodol.
- **Recriwtio, cadw a gwerthfawrogi pobl lle mae eu hangen fwyaf:** Defnyddio dulliau beiddgar, yn seiliedig ar le i dyfu a chadw staff mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau'n brin. Buddsoddi mewn piblinellau hyfforddi lleol, cyflog teg, dilyniant, llesiant, a rolau hyblyg sy'n cefnogi cadw staff a gwydnwch.
- **Gwerthfawrogi, annog a chefnogi gwirfoddolwyr a gofalwyr:** Nodi anghenion, cyfleoedd, hyfforddianta chefnogaeth i ofalwyr, gwirfoddolwyr a phobl â phrofiad bywyd.

Thema 10: Ailfframio perfformiad, llywodraethu a dyrannu adnoddau i adlewyrchu'r angen a'r gwerth mwyaf.

- **Ailddiffinio'r hyn rydym yn ei fesur a'i wobrwyo:** Symud o dargedau proses i fetrigau sy'n adlewyrchu llesiant, tegwch, profiad a chanlyniadau hirdymor, gan eu hymgorffori mewn perfformiad, contractau ac adrodd.
- **Cydweddu cyllid â phwrrpas a gwerth:** Ailgynllunio cyllidebau a chymhellion i ddilyn angen, cefnogi atal, a galluogi cyfrifoldeb a rennir ar draws sectorau.
- **Creu fframwaith canlyniadau cenedlaethol a rennir:** Datblygu fframwaith traws-sector gyda nodau cyffredin a darpariaeth leol hyblyg i arwain gweithredu a buddsoddiad ar y cyd.
- **Asesu penderfyniadau mawr o ran effaith ar iechyd a thegwch:** Sicrhau bod yr holl benderfyniadau polisi a gwariant arwyddocaol yn cael eu profi am eu heffaith ar iechyd y boblogaeth, tegwch a chynaliadwyedd.



I ble ydym yn mynd o fan hyn?

Mae'r camau gweithredu yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu rhai o'r syniadau a'r uchelgeisiau a rannwyd yn Uwchgynhadledd y Gwanwyn. Nid ydynt yn derfynol nac yn gynhwysfawr, ond maent yn nodi'r camau cyntaf tuag at system iechyd, gofal a llesiant yn y dyfodol yng Nghymru. Yn y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i'w mireinio, gan dynnu ar arfer gorau rhyngwladol a sicrhau'r partneriaethau a'r ymrwymiad ar y cyd sydd eu hangen i wneud i newid ddigwydd.

Rhaid i'r Tro Hwn Fod yn Wahanol

Nid yw galwadau am ddiwygio beiddgar yn beth newydd.

Ers degawdau, mae adroddiadau wedi annog symud o ofal adweithiol i atal, o ddarnio i integreiddio, o systemau a adeiladwyd o amgylch sefydliadau i rai a adeiladwyd o amgylch pobl. Fodd bynnag, yn rhy aml mae bwriadau beiddgar wedi methu â darparu atebion parhaol. Mae'n rhaid i hyn newid nawr.

Nid yw'r system wedi torri - mae wedi dyddio, wedi'i llethu, ac nid yw'n cyd-fynd â bywydau pobl.

Mae gan Gymru'r offer, y dalent, a'r mandad i arwain. Os ydym yn credu'n wirioneddol mewn dyfodol gwell i bawb, rhaid inni fod yn ddigon beiddgar i'w adeiladu gyda'n gilydd – gan ddechrau heddiw, nid yfory.

1. Amcanestyniadau Poblogaeth Ystadegau Cymru (yn seiliedig ar 2022)
2. Llywodraeth Cymru; 2018. *Amcangyfrifon o faich clefydau yn 2040; Sefydliad Iechyd, 2023. Iechyd yn 2040: patrymau rhagamcanol o salwch yn Lloegr.*
3. Ymchwil y Senedd, 2023. *Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwasanaethau dementia yng Nghymru.*
4. Data wedi'i allosod i 2045 o Adroddiad Gofalwn Cymru 2022 a Gweithiwr Proffesiynol Cartrefi Gofal, 2024. *Cymru'n rhuthro tuag at ddiffyg o 10,000 o welyau mewn cartrefi gofal dros y degawd nesaf.*
5. Amcanestyniadau Poblogaeth Ystadegau Cymru (yn seiliedig ar 2022)
6. Swyddfa Ystadegau Gwladol (Ebrill 2024), *Absenoldeb Salwch ym Marchnad Lafur y DU*
7. Wedi'i fodelu ar ddata ONS, Absenoldeb Salwch ym Marchnad Lafur y DU 2024 a Rhagamcanion Poblogaeth Ystadegau Cymru (yn seiliedig ar 2022).
8. Llywodraeth Cymru; 2018. *Amcangyfrifon o faich clefydau yn 2040; Y Sefydliad Iechyd, 2023. Iechyd yn 2040: patrymau rhagamcanol o salwch yn Lloegr.*
9. Gofal Cymdeithasol Cymru (2020) *Arolwg gweithlu peilot - Adroddiad cyffredinol o'r canfyddiadau.*
10. Gofalwyr Cymru *Cyflwr Gofal yng Nghymru.*
11. Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024
12. Llywodraeth Cymru; 2018. *Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2023 i Fawrth 2024*
13. Wedi'i fodelu ar ONS *'Disgwyliadau oes cyflwr iechyd yn ôl amddifadedd cenedlaethol' ac Ymchwil y Senedd 'Iechyd a chyfoeth: pam mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mor bwysig'.*
14. Swyddfa Ystadegau Gwladol. *Disgwyliadau oes cyflwr iechyd yn ôl cwintelau amddifadedd cenedlaethol, Cymru: (2018-2020).*
15. Currie et al., 2021. *Exploring the equity of distribution of general medical services funding allocations in Wales: a time-series analysis.* BJGP.
16. Comisiwn Sefydliad Iechyd y Byd ar Benderfynyddion Cymdeithasol Iechyd, 2008. *Closing the gap in a generation: Health equity through action on the social determinants of health.*

Comisiwn Bevan Commission

School of Management,
Swansea University Bay Campus,
Fabian Way, Swansea SA1 8EN

www.bevancommission.org
bevan-commission@swansea.ac.uk
+44 (0)1792 604 630
